Cwestiynau Cyffredin am daenlen cofnodi data Valuemap

Pam y system cofnodi data newydd?

Roedd adborth gan rai prosiectau'n dangos fod maint y data yr oedden nhw'n ei gynhyrchu'n

gwneud cofnodi ar Valuemap yn rhywbeth oedd yn cymryd gormod o amser.

Roedd mater technegol hefyd gydag un prosiect yn methu llwytho'r meddalwedd angenrheidiol ar eu system i gael mynediad i Valuemap.

Yr atebion rydym wedi'u rhoi ar waith yw:

- symleiddio'r nifer o KPIau a lleihau'r nifer o gategorïau dadansoddi
- creu fformat cofnodi data newydd nad yw'n galw am unrhyw feddalwedd ychwanegol er mwyn ei ddefnyddio

Roeddwn i'n hapus yn defnyddio Valuemap - alla'i barhau i'w ddefnyddio?

Gallwch - gallwch ddefnyddio Valuemap o hyd i gofnodi eich data'n uniongyrchol os dymunwch. Dewis arall yw hwn, nid rhywbeth i ddisodli Valuemap - mae'r data i gyd yn dal i fynd i'ch Valuemap a gallwch ddefnyddio'r swyddogaethau adrodd yn union yr un fath.

Yr unig wahaniaeth fydd y bydd llai o feysydd ar gyfer cofnodi data (i gyd-fynd â'r rhai ar y daenlen).

Pam mae llai o KPIau erbyn hyn a pham roedd rhaid i ni gasglu rhagor yn wreiddiol?

Mae'r KPIau wedi cael eu symleiddio gan fod y prosiectau wedi dweud wrthym fod angen iddyn nhw leihau'r amser y maen nhw'n ei dreulio'n cofnodi data.

Roedd y KPIau sydd wedi eu dileu yn ddata defnyddiol ond nid yn hanfodol felly rydym wedi lleihau'r adrodd yn Valuemap i lawr i'r isafswm KPIau y mae modd i ni eu cael.

Oes modd i mi gael dadansoddiad buddiolwyr o hyd am bob KPI yn Valuemap?

Nag oes. Dyma'r prif wahaniaeth wrth symleiddio nifer y KPIau a'r categorïau dadansoddi.

Os ydych chi eisiau cynhyrchu data ar y lefel hwn yna bydd rhaid i chi gofnodi data'r holiaduron ar eich taenlenni eich hun a thraws-dablu'r data fesul cwestiwn.

Gallwn eich helpu i wneud hyn os ydych am gynhyrchu'r lefel hwn o ddata. Mae llawer o brosiectau eisoes yn gwneud hyn beth bynnag.

Ai cyfres fer o KPIau'n unig yw fy ngwerthuso bellach?

'Penawdau' yw KPIau - fel cafodd ei amlinellu gennym wrth i'r prosiectau gael eu llunio, offeryn adrodd yw'r Valuemap i ddangos cynnydd.

Valuemap a'r KPIau ynddo yw'r dull o gynhyrchu trosolwg o raglen Ffordd o Fyw; Nid oedd hi'n fwriad i ddarparu'r dyfnder data sy'n ofynnol ar gyfer gwerthusiad llawn.

Gall yr holiadur gynhyrchu llawer mwy o ddata nag sy'n ofynnol gan Valuemap (hyd yn oed cyn i'r newidiadau gael eu gwneud yn ddiweddar) a gallwn eich helpu i gael mwy allan ohonyn nhw os dymunwch. Gofynnwch i'ch rheolwr achos.

Mater i brosiectau unigol yw hunanwerthuso; gallwn ddarparu pa gefnogaeth bynnag sydd ei angen arnoch ar gyfer hyn. Bydd peth ohono'n cael ei arwain gennym ni (yr elfennau gorfodol yw'r holiadur a'r Newid Mwyaf Arwyddocaol, yn ogystal â rhai pethau dewisol megis Graddfa Rickter) ond rydym yno'n bennaf i'ch cefnogi chi yn yr hyn sydd ei angen arnoch. Nid ein swyddogaeth ni yw pennu eich dulliau hunanwerthuso, ond gallwn eich cynghori ar ddulliau a ddefnyddiwn a gallwn ddarparu unrhyw hyfforddiant y gofynnwch amdano. Ond mae angen i chi roi gwybod i ni pa gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.

Ydw i'n gallu cael at y data rydw i wedi ei gofnodi dan y KPIau sydd wedi cael eu dileu?

Ydych - os ydych chi am i ni ei dynnu allan, gallwn wneud hynny; rhowch wybod i ni drwy ffonio'r llinell gymorth Valuemap.

Alla'i ddefnyddio'r ddwy system i gofnodi data?

Na - yn dechnegol gallwch wneud, ond mae potensial sylweddol i gofnodi data ddwywaith felly defnyddiwch y naill system neu'r llall.

Alla'i addasu'r daenlen?

Na - er mwyn cipio data'r wybodaeth i mewn i Valuemap, rhaid i'r daenlen gael ei fformadu mewn ffordd benodol iawn - mae yna adrannau cudd nad oes angen i chi eu defnyddio, sy'n bwydo oddi ar y brif dudalen cofnodi data.

Rhaid defnyddio'r rhain yn union yr un fformat ag yr ydym wedi'i ddarparu neu bydd y data

ddim yn uwchlwytho'n iawn. Rydym wedi cloi pob cell ar wahân i'r rhai y gallwch chi gofnodi data ynddynt er mwyn isafu unrhyw gamsyniadau wrth uwchlwytho data.

Sut mae diffinio prif fuddiolwyr a buddiolwyr eilradd?

Prif fuddiolwr yw rhywun yn y grŵp oedran mae'ch prosiect yn ei dargedu. Gyda rhai prosiectau gall hyn fod yn unrhyw un dan 12 oed, neu gydag eraill gallech fod yn targedu plant rhwng 8 ac 11 oed er enghraifft. Yn yr achos olaf, y plant rhwng 8 ac 11 oed fyddai eich

prif fuddiolwyr. Mae unrhyw un arall (hŷn neu iau) yn fuddiolwr eilradd.

Beth yw'r diffiniad o 'Gwblhawr'?

Chi sy'n penderfynu hyn. Yn ei hanfod, mae cwblhawr yn rhywun y credwch sydd wedi elwa o ba bynnag ymyriad rydych wedi'i wneud. I rai prosiectau a chyfranogwyr gall hyn fod yn ymyriad dwys a hir, ac i eraill gall fod yn eithaf byr.

Cyn belled â'ch bod chi'n diffinio beth rydych chi'n ei feddwl wrth gwblhawr, gellir edrych ar y data yn y cyd-destun hwnnw ac fe fydd yn ddefnyddiol.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfranogwr a mynychwr?

Cyfranogwr yw rhywun sy'n ymgofrestru; mynychwr yw rhywun sy'n dod i'r sesiynau. Mewn sawl achos gall hyn fod yr un ffigur, ond mae'n bosibl y bydd rhywun yn ymgofrestru ond byth yn troi i fyny. Mae hyn yn dal yn wybodaeth ddefnyddiol i'w chael.

Ydw i'n defnyddio'r un ffurflen bob tro?

Na - bydd y ffurflen yn edrych yr un fath, ar wahân i'r cyfanswm cronnus, fydd yn cynyddu

wrth i amser fynd yn ei flaen.

Unwaith y byddwch yn anfon eich ffurflen atom byddwn yn diweddaru'r manylion ar eich Valuemap ac yn anfon taenlen wag yn ôl atoch gyda'r cyfansymiau cronnus wedi'u diwygio. Byddwch yn defnyddio'r daenlen newydd bob tro y byddwn yn anfon un, ar gyfer yr adroddiad nesaf.

Pam nad yw'r gell cyfanswm cronnus yn cynyddu wrth i mi roi fy nata i mewn?

Dydyn ni ddim wedi awtomeiddio'r gell. Rydym wedi gwneud hyn gan y bydd rhai pobl yn cofnodi data mewn meintiau bach bob wythnos cyn anfon eu ffurflen atom i'w uwchlwytho i'w

Valuemap ac mae cadw'r gell honno'n statig yn help i'ch atgoffa fod yr hyn a gofnodwyd ddiwethaf yn eich ffigur cronnus yn eich Valuemap. Bydd hefyd yn ein helpu ni pe byddai unrhyw gamsyniad mewn cofnodi data, er mwyn i ni allu cyfeirio'n ôl at gyfansymiau blaenorol.

Doedd y pennawd cwblhawyr ddim yn fy Valuemap gwreiddiol. Beth yw ystyr y KPI hwn?

Yn y Valuemaps, roedd 3 pennawd gwahanol yn cael eu defnyddio, gan ddibynnu ar y model; dim ond un y byddech chi wedi'i weld ar eich Valuemap chi, gan ddibynnu ar eich model:

- ar gyfer Ffrindiau Iach roedd 'na KPI Ffrindiau Newydd
- ar gyfer Llefydd Iach roedd 'na KPI o Gyfranogwyr Newydd

- Ar gyfer Tiwtoriaid Cartref Iach roedd 'na KPI o Gwblhawyr Rhaglenni

Er mwyn creu taenlen cofnodi data sengl roedd angen i ni greu cofnod sengl ar gyfer y rhain, felly rydym wedi galw'r cyfan yn gwblhawyr. Yr un data yw hwn ag y byddech wedi'i gofnodi

ar gyfer Ffrindiau Iach, Cyfranogwyr Newydd neu Gwblhawyr Rhaglenni, a bydd yn cael ei ychwanegu i'r KPI hwnnw.

Oes rhaid i mi gofnodi data ar gyfer pob maes bob tro?

Rhaid i chi gofnodi data ar gyfer pob maes y mae gennych darged ar ei gyfer, yn union fel yn y Valuemaps. Gan mai ni sy'n prosesu'r data i mewn i'r Valuemaps i chi bellach, byddem

yn dymuno i chi anfon setiau data cyflawn atom yn hytrach na dim ond llenwi un

dangosydd ar y pryd. Gallwn fod yn hyblyg i gwrdd â'ch anghenion ond fyddwn ni ddim yn gallu prosesu ffurflen gennych chi bob wythnos.

Oes angen i mi gofnodi unrhyw beth yn y celloedd nad yw'n berthnasol i'm mhrosiect i?

Nag oes.

Rydw i'n cofnodi fy nata bob wythnos, ddylwn i anfon y ffurflen atoch chi bob tro?

Na. Byddwn ni'n casglu'r ffurflenni gennych chi ar ddiwedd bob mis. Os nad ydych wedi cofnodi unrhyw ddata ar gyfer y mis hwnnw, mae hynny'n iawn; rhowch wybod i ni, ac fe gysylltwn â chi ddiwedd y mis canlynol. Fe fyddem yn disgwyl cael data gennych o leiaf unwaith y chwarter.

Os ydych am ychwanegu data ar eich taenlen wrth i chi fynd ymlaen, yna gallwch wneud, ond cofiwch wneud hynny'n gronnus. Felly os ydych chi wedi ychwanegu 10 o bobl un wythnos ac 20 arall yr wythnos wedyn, cofiwch fod rhaid i chi deipio 30 yn y blwch yr ail dro gan ei fod yn teipio dros y 10 - mewn geiriau eraill, fydd y daenlen ddim yn cofio'r 10 unwaith y byddwch chi'n newid y rhif yn y blwch, felly mae angen i chi ei adio.

Unwaith y byddwch wedi anfon y ffurflen atom ni ac y byddwn ni wedi'i uwchlwytho, byddwn yn diwygio'r blwch cyfanswm cronnus ac yn anfon y ffurflen yn ôl atoch er mwyn i chi wybod beth yw'ch rhif Valuemap mwyaf cyfredol y mae angen i chi adio ato bob tro.

Pa mor hir fydd hi'n cymryd rhwng anfon fy nata i mewn a'i weld yn fy Valuemap?

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn digwydd o fewn 2 ddiwrnod gwaith, weithiau'n gynt. Yn achlysurol, bydd gennym lawer o gyflwyniadau i'w trafod i gyd ar yr un pryd a gall gymryd

ychydig yn hirach. Os oes angen i chi gael ymateb cyflym i'ch data er mwyn llunio adroddiad i'ch corff llywodraethol neu bartneriaeth, er enghraifft, yna rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu

rhoi blaenoriaeth i'ch data a rhoi gwybod i chi pa bryd y bydd wedi'i gwblhau.

Beth os gwnaf i gamgymeriad?

Os nad ydych wedi cyflwyno'ch taenlen i ni eto, yna gallwch newid y cyfanswm yn union fel y byddech yn ei wneud ar unrhyw daenlen Excel; nid yw wedi'i uwchlwytho i'ch Valuemap nes

eich bod yn ei anfon atom ni.

Os ydych eisoes wedi'i anfon atom a ninnau wedi'i uwchlwytho i'ch Valuemap, gwnewch

nodyn a'i gywiro yn eich cyflwyniad nesaf - rhowch sylw nesaf at y maes/meysydd perthnasol i esbonio'r newid pan fyddwch yn anfon data atom y tro nesaf a bydd hwn yn cael ei ychwanegu i'ch Valuemap.

Oes rhaid i mi roi sylw gyda phob cofnod?

Na - dim ond os oes angen i chi esbonio cofnod y mae angen ychwanegu sylw. Fodd bynnag, dylech bob amser ychwanegu sylw os oes rhaid i gyfanswm cronnus fynd i lawr am ryw reswm.

Sut ydw i'n perthnasu'r offeryn asesu partneriaeth i'r KPI partneriaeth lai?

Mae hon yn wybodaeth ddefnyddiol o hyd a byddem yn eich annog i asesu ansawdd eich

partneriaethau fel rhan o'ch gwerthusiad prosiect unigol. At bwrpas Valuemap, sy'n cynhyrchu golwg eang o raglen, rydym wedi ceisio'i leihau i'r isafswm o KPIau sy'n angenrheidiol i wneud hynny.

Mae gen i gwestiwn nad yw'n cael ei ateb gan yr uchod - pwy all ei ateb i mi?

Mae llinell gymorth Valuemap ar gael ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r taenlenni a gallwch ddefnyddio hwn mor aml ag y dymunwch. Dylech ofn am Steven Ross, a'r rhif ffôn yw 0141 204 3183. Byddwn yn ychwanegu unrhyw Gwestiynau Cyffredin newydd i'r rhestr hon wrth i ni eu derbyn.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut y gallwn wella'r Cwestiynau Cyffredin hyn neu os oes gennych unrhyw faterion yr hoffech i ni eu hychwanegu, gofynnwch i ni drwy'r llinell gymorth neu drwy gysylltu â'ch rheolwr achos Hall Aitken.

Ddylwn i gyfri'r un person ddwywaith?

Na - yn gyffredinol ddylech chi ddim gwneud unrhyw gyfrif dwbl.